Adroddiad o'r Gadair

Bu gan Cyfeillion Ynys Tysilio un neu ddau o bethau oedd yn eu poeni ers tro byd, ond mae'n dda medru adrodd fod peth o leiaf dau ohonynt wedi symud ymlaen. Yn gyntaf, byddwch yn ymwybodol fod yr Eglwys wedi comisiynu arolwg o'r beddi ar yr ynys rai blynyddoedd yn ole r mwyn adnabod unrhyw broblemau diogelwch. Rhestrodd y cwmni a wnaeth yr arolwg 79 bedd oedd angen sylw oherwydd fod y cerrig beddi heb eu gosod yn ddiogel neu fod cofeb ar syrthio. Roedd y gost o wneud y beddi hyn yn ddiogel yn mynd if od o gwmpas £8,000. Gobeithid, y buasai hanner o'r arian am y gwaith yn dod o grantiau, ac ymgymerodd y Cyfeillion i gael hyd i'r gweddill. Y gobaith oedd y buasai'r cwmni a wnaeth yr arolwg yn gwneud y gwaith hefyd, ond ni ddigwyddodd hyn. Er fod amryw o geisiadau wedi eu gwneud i'r cwmni ni dderbyniwyd un rhyw restr fanwl o'r gwaith. Yn ystod y misoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'r cwmni wedi tynnu'n ol yn ffurfiol gan gyfaddef nad ydynt bellach mewn sefyllfa i wneud y gwaith. Rydym wedi cysylltu a seiri meini eraill a gobeithiwn y bydd adroddiad blynyddol flwyddyn nesaf yn cadarnhau fod y gwaith wedi ei ddechrau.

Problem arall dros y blynyddoedd yw torri'r glaswellt a rheoli tyfiant planhigion ar yr ynys. Fel yr adroddais y llynnedd, mae'r cwningod ar yr ynys wdi gwneud gwaith da oherwydd eu bod yn gwneud llawer o waith y contractwyr torri glaswellt, ac hefyd mae rheoli'r glaswellt wedi caniatau i fwy o flodau i ymddangos a chawsom arddangosfa fendigedig eleni o gennin pedr, briallu a chlychau'r gog heb son am ennill yn ariannol oherwydd gwaith da y cwningod. Gallaf hefyd adrodd fod Nigel Brown oedd yn gyfarwyddwr ar Erddi Llysieuol Treborth, wedi dod atom fel ymgynghorwr ar faterion amgylchyddol ar Llandysilio. Bu'n cynorthwyo yn yr Hydref i baratoi rhaglen waith. Ein blaenoriaethau fydd cael gwared ar blanhigion sy'n cymeryd meddiant o'r tir (yn arbennig y cotoneaster ar ben yr allt o gwmpas y gofgolofn ac ar lan y mor heibio'r coed tu ol i'r eglwys), cael gwared a rhai coed megis y coed sycamore neu y rhai nad ydynt mewn cyflwr da a thorri eraill yn ol er mwyn rhoi mwy o le i goed eraill a phlanhigion ac i wella'r olygfa o'r gof golofn at yr eglwys hefyd gobeithiwn barhau i glirio mieri, eiddew, ac ati o'r llwybrau a'r waliau ac o gwmpas y beddi.Y flwyddyn hon bu dau grwp gwirfoddol yn ymwel a ni. Bu'r grwp AHNE ddwywaith i glirio'r cotoneaster o lan y dwr, a bu grwp Llwybrau'r Glannau a'r "Silver Slashers" ar yr ynys i weithio ar y llwybr uchaf o dan y gofgolofn. Bu Gwasanaeth Coed Eryri yn gweithio ar y coed a'r cotoneaster ar yr allt i fyny at y Gofgolofn. Oherwydd bod Cadwraeth Coed ar yr ynys bu'n rhaid gofyn am ganiatad o'r Cyngor Sir. Derbyniwyd ganiatad, ond yn rhy hwyr ar gyfer y Gaeaf hwn. Gwneir y gwaith ym mis Tachwedd. Tynnwyd y cotoneaster fodd bynnag, a chafodd y gwastraff o hwnnw a gwaith y grwpiau gwirfoddol ei falurio a'i daenu. Mae gweddillion y cotoneaster a phlanhigion meddiannus eraill wedi eu chwistrellu i wneud yn siwr na fyddent yn tyfu eto. Yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Chwefror, cytunwyd y dylid gwario hyd at £2000 ar y gwaith hwn y Gaeaf yma. Hyd yma costiodd y gwaith £1,285.

Fel yn 2016, cynhaliwyd dwy wyl ar yr ynys eleni. Gwyl Tysilio oedd yr wyl fawr – sydd nawr yn fwy ac yn well nag erioed o'r blaen, oherwydd rhaglennu newydd a mwy o gyhoeddusrwydd. Yn arbennig roedd mwy o bobl yn y digwyddiadau amser cinio eleni a digwyddiad newydd oedd taith gerdded wedi ei arwain gan Nigel Brown o gwmpas yr ynys. Bu hwn mor llwyddiannus trefnwyd i'r daith ddigwydd eto yn ystod gwahanol dymhorau y flwyddyn. Mae diolch yn fawr i Lis Perkins, cyfarwyddwr yr wyl am ei gwaith, a hefyd y perffomiwyr a roddodd o'u talent a'u hamser, ac hefyd i Nigel Brown am ei deithiau cerdded a'i gymorth. Bydd Gwyl 2017 eleni o Orffennaf 11eg-16eg - wythnos yn gynt na'r llynnedd.Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn. Byddwn angen gwirfoddolwyr i groesawu ymwelwyr drwy'r wythnos. Yr wyl arall oedd Sybrydion yr Ynys, a drefnwyd gan Femke van Gent. Fel y llynnedd roedd yn cynnwys gweithgareddau awyr agored i'r ifanc a'r hen gan orffen gyda pherformaid ardderchog yn yr eglwys.

I orffen, rhestr fer o ddigwyddiadau eraill. Roeddem yn bresennol yn Wyl Fwyd Mor Menai, ond nid yn Ffair y Borth. Gwahoddwyd ni i gael stondin ymym Mharti Gardd y Gymdeithas Treftadaeth ym Mhlas Cadnant ym mis Medi. Ym mis Mai bu'm yn siarad yn Sefydliad y Merched Porthaethwy i gyhoeddi ein gwaith. Mae Sefydliad y Merched yn aelodau caredig o'r Cyfeillion. Roeddem yn falch fod cais cynllunio y Ganolfan Zorbio, wedi ei wrthod, gan ein bod ninnau yn ei erbyn. Yn ychwanegol i'r gwasanaethau Sul misol yn ystod yr Haf yn Sant Tysilio, bu hefyd wasanaethau newydd yn ystod yr wythnos, unwaith y mis drwy'r flwyddyn, Gwasanaeth Pererindod ar gyfer Iachau a Chyfanrwydd. Mae'r eglwys ar fin cychwyn atgyweirio'r sied y tu ol i'r eglwys. Ni fuodd rhagor o ddatblygiad ynglyn a safle we newydd y Cyfeillion.

Mae fy niolchiadau yn mynd i'r holl Gyfeillion sydd wedi cyfrannu arian tuag atom eleni, pawb sydd wedi cynorthwyo'n ymarferol ar yr ynys, Lis Perkins am Wyl Tysilio, Nigel Brown am ei gyfarwyddyd, a'r swyddogion: David Brydon, John Hughes a Malcolm Rogers.

Gareth Hughes, Cadeirydd
24.05.2017